# Plant Ddoe



## Tŷ Gwyn, 1910

## Y Dychrynwr Adar



© BBC

# Y STORI

Mae'r dirgelwch wedi'i osod yn 1910 ar fferm fach ar bwys Pen-y-bont ar Ogwr. Mae ewythr Harry yn sâl ac mae Harry Williams wedi mynd ar goll.

# CEGIN



Byddai'r wraig fferm yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser yn y gegin. Roedd yn rhaid iddi goginio, glanhau, golchi a smwddio. Ond nid dyna'r cyfan. Roedd yn rhaid iddi wneud pethau fel bwydo'r moch, casglu wyau, godro'r gwartheg neu'r geifr a gwneud menyn a chaws. Roedd pethau hyd yn oed yn waeth os oedd ei gŵr hi'n sâl. Byddai'n rhaid iddi wedyn edrych ar ei ôl e hefyd a gwneud peth o'r gwaith y byddai'r ffermwr wedi'i wneud.

# EITEMAU



Pot coginio mawr o'r enw crochan ydy hwn. Doedd dim trydan na nwy yn Fferm Tŷ Gwyn felly roedd yn rhaid coginio yn y grât cegin metel oedd yn cael ei gynhesu gan y tân. Roeddech chi'n gallu rhoi'r crochan ar ben y ffwrn neu ei hongian dros y tân. Roedden nhw'n coginio cawl, rhyw fath o stiw, yn y crochan.



Ysbodolau menyn o bren ydy'r rhain i dorri a siapio'r menyn yr oedd ffermwyr yn wneud o laeth gwartheg neu eifr. Roedd hufen o'r llaeth yn cael ei gymysgu neu ei ysgwyd nes ei fod yn gwahanu'n fraster menyn a dŵr. Yna, roedden nhw'n hidlo a gwasgu'r dŵr allan, gan adael dim ond y menyn. Roedd ffermwyr yn gwneud cymaint o'u bwyd eu hunain â phosib. Roedd unrhyw



© BBC

fwyd ychwanegol yn cael ei werthu yn y farchnad.




Dysgl ham ydy hon. Mae'n wag achos fod rhywun wedi mynd â'r ham. Roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn cadw moch. Roedden nhw'n eu pesgi (gwneud yn dew) ar weddillion o'r gegin nes eu bod nhw'n ddigon mawr i'w bwyta. Am rai dyddiau ar ôl lladd mochyn byddai'r teulu'n bwyta porc ffres. Byddai'r rhan fwyaf yn cael ei wneud yn gig moch a ham oedd yn cadw'n hirach. Doedd dim oergelloedd na rhewgelloedd i gadw bwyd yn ffres.



Doedd gan bawb ddim oriawr. Yng nghefn gwlad, roedd pobl yn dechrau ac yn gorffen gwaith yn dibynnu ar y tywydd, y tymhorau a pha waith oedd angen ei wneud ar y fferm. Roedd oriawr yn ddrud iawn hefyd. Os oedd gan rywun oriawr, efallai mai dyna'r peth mwyaf gwerthfawr fyddai ganddyn nhw i'w drosglwyddo i'w plant. Byddai pobl yn edrych ar ôl oriawr boced fel hon a'i phasio i lawr o dad i fab.

## TYSTION



Aeth Megan â fi i weld allwn i wneud rhywbeth ar gyfer ei gŵr. Does ganddi hi ddim arian ar gyfer doctor heb son am ddigon ar gyfer meddyginiaeth William. Dw i'n trio helpu, chi'n gwybod, os ydy pobl yn sâl - perlysiau, moddion, meddyginiaeth - i gyd wedi'u pasio i lawr drwy'r teulu. A llawer rhatach na'r tâl y byddai doctor yn ei godi…

Beth bynnag, fe ddaethon ni yn ôl i lawr y grisiau ac fe sylwodd hi fod pethau wedi mynd o'r gegin - ham ac ychydig o fenyn. "Mae lleidr wedi bod yma!" meddai hi.

"Lleidr rhyfedd iawn," meddai fi, "yn mynd â bwyd ond yn gadael yr oriawr boced 'na. Mae'n siŵr mai Tomos Griffiths sydd wedi mynd â nhw i'w bantri."

Yna, sylwodd Megan fod pethau Harry wedi mynd hefyd - ei



© BBC

bethau chwarae, ei wialen bysgota a'i injan drên. Mae'n meddwl y byd o'r injan 'na. Dyna beth oedd ganddo y tro cyntaf iddo ddod yma gyda'i dad - Pasg llynedd oedd hi. Yr holl ffordd o Gaerdydd. Fe ddywedodd Henry, ei dad, nad oedd e'n gallu edrych ar ôl Harry - ddim ers i fam Harry farw.
"Harry sy'n bod yn fachgen drwg eto - fe sydd wedi mynd â'r pethau 'na," meddai Megan. "Aros di nes caf fi afael arnat ti."
Ond pan es i yn ôl prynhawn 'ma – gyda moddion i Mr Williams – roedd hi'n poeni. Dydy Harry ddim wedi dod adref. Mae'n meddwl ei fod wedi rhedeg i ffwrdd i Gaerdydd at ei dad.

## Y STORI

Cegin: Sylwodd modryb Harry fod rhywun wedi dwyn pethau o'r gegin – ham, ychydig o fenyn a rhai o deganau Harry. Ond sylwodd Mari Jenkins fod y lleidr wedi gadael oriawr werthfawr.

## STABL



Roedd llawer o ffermydd Cymru mor fach, aelodau'r teulu fyddai'n gwneud yr holl waith ar y fferm. Dim ond ffermdy, ysgubor a stabl fyddai wedi bod yn Fferm Tŷ Gwyn, a dim llawer mwy. Bydden nhw wedi tyfu cae neu ddau o ŷd ac yn berchen ar ychydig o wartheg neu braidd o ddefaid. Ar fferm fach fel hon, roedd hi'n anodd gwneud digon o arian i dalu'r rhent ac i fyw.

## EITEMAU



Pladur ydy hon. Am ganrifoedd mae pobl wedi ei defnyddio i dorri gwair ac ŷd. Yn 1910, roedd y ffermydd mwyaf yn defnyddio peiriannau oedd yn cael eu tynnu gan geffyl. Roedd rhain yn torri yn llawer cyflymach. Ond roedd ffermydd bach, fel Fferm Tŷ Gwyn yn dal i ddefnyddio pladur. Roedd yn rhaid i wartheg a cheffylau fwyta gwair  yn ystod y gaeaf er mwyn byw. Porfa sych ydy gwair. Felly, ar fferm fach, roedd hi'n bwysig



© BBC

torri digon o wair i bara'r gaeaf.



Byddai coler ceffyl yn cael ei rhoi o gwmpas gwddf y ceffyl pan fyddai'n tynnu aradr. Yna fe fydden nhw'n clymu'r aradr i'r goler. Doedd dim tractors i'w cael felly ceffylau oedd yn gwneud yr holl waith trwm. Yn 1910, roedd dros filiwn o geffylau yn gweithio ar ffermydd Prydain.



Roedd ffermwyr yn defnyddio wagen neu gert a cheffyl i dynnu llwyth trwm. Saer olwynion oedd yn gwneud olwynion y gert. Roedd saer olwynion yn defnyddio gwahanol fathau o bren ar gyfer gwahanol rannau o'r olwyn - llwyfen ar gyfer y both yn y canol a derw ar gyfer breichiau'r olwyn. Roedd yr ymylon pren yn cael eu hamddiffyn gan stribyn metel. Gof fyddai'n gwneud hyn. Roedd saer olwynion a gof yn dibynnu llawer ar ffermio am waith.



Roedd yn rhaid i blant fferm weithio. Weithiau roedden nhw'n defnyddio hof, neu fforch chwynnu, fel hon i gael gwared ar chwyn rhwng y rhesi tatws. Roedden nhw hefyd yn gorfod nôl dŵr o'r ffynnon, casglu gwair a helpu gyda'r cynaeafu. Ond y gwaith gwaethaf oedd codi'r holl gerrig o'r cae fel eu bod nhw ddim yn gwneud niwed i lafn aradr neu bladur. Roedd yn waith blinedig ac roedd yn gwneud i'ch cefn frifo.



Tarfwr adar wedi'i wneud o bren ydy hwn. Roedd yn gwneud sŵn uchel os oeddech chi'n ei ysgwyd. Ar ôl hau'r ŷd roedd adar yn dod i fwyta'r hadau. Felly, byddai plentyn, fel Harry Williams, yn cael ei anfon i'r cae gyda'r tarfwr adar i ddychryn yr adar. Ysgrifennodd George Ewart Evans, 'Roedd yn waith unig iawn, ac roeddwn i fel arfer wedi rhynnu yn yr oerfel erbyn diwedd y dydd.'



© BBC

# TYSTION



Y lleidr bach! Mae wedi dwyn fy nghyflog i! A beth sy'n eu lle? Nodyn! Mae'n gwybod yn iawn nad ydw i'n gallu darllen!

Roedd yn rhaid i fi ofyn i Mrs Williams beth oedd e'n ddweud. Doedd hi ddim yn hapus, allai ddweud wrthoch chi. O leiaf mae'n gwybod nawr mai ddim fi aeth â'r pethau eraill.

Felly, beth ysgrifennodd e?
'Annwyl Tomos'. O ie, annwyl iawn mêt!
'Mae'n ddrwg gen i. Roedd yn rhaid i fi fynd â'r gwellaif.'

Wel, iawn felly, on'd ydy? Mae hynny'n egluro popeth. Diolch yn fawr iawn Harry bach. Fe wnaeth Mrs Williams addo'r gwellaif i fi achos bod dim arian gyda hi. Ddim y fargen orau, ond mae'n rhaid gwneud y gorau o bethau. Felly fe ddes i'w nôl nhw – fe ddes i mewn ar ôl glanhau'r twlc mochyn ac roedden nhw wedi mynd! Gyda beth ga' i fy nhalu nawr?

'I ti gael gwybod, dw i wedi mynd â fy ngwialen bysgota hefyd. Fe wnâi dy dalu di yn ôl cyn gynted â phosib..'

Mae'n siŵr ei fod wedi gwerthu'r gwellaif 'na i rywun erbyn hyn - ac mae'r arian yn llosgi'n ei boced. Welaf i ddim ceiniog. Mae'n siŵr ei fod wedi'i wario ar wialen bysgota newydd. Dyna'r unig beth mae'n wneud. Mae'n mynd i bysgota yn lle mynd i'r ysgol.

Mae un peth yn bendant, dydy e ddim yn dychryn yr adar ar y cae top – lle mae i fod - achos mae'r tarfwr adar yn dal yma.

# Y STORI

Cegin: Sylwodd modryb Harry fod rhywun wedi dwyn pethau o'r gegin – ham, ychydig o fenyn a rhai o deganau Harry. Ond sylwodd Mari Jenkins fod y lleidr wedi gadael oriawr werthfawr.

Stabl: Gadawodd Harry nodyn i Tomos yn dweud ei fod wedi mynd â'r gwellaif. Roedd ei wialen bysgota wedi mynd hefyd. Roedd Tomos yn meddwl bod Harry wedi mynd i bysgota – pan oedd fod yn dychryn adar yn y cae.




© BBC

## YSGOL




Mewn dosbarth fel hyn y byddai Harry Williams wedi cael ei addysg. Yn aml, dim ond un dosbarth oedd gan ysgolion cefn gwlad, felly roedd plant o bob oed yn cael eu dysgu yn yr un stafell. Byddai'r plant ieuengaf yn eistedd wrth y desgiau bach ar bwys y blaen pan fydden nhw'n dechrau'r ysgol. Yna, dros y blynyddoedd, fe fydden nhw'n symud tua chefn y dosbarth nes eu bod nhw yn y diwedd yn y rhes gefn. Fel arfer dim ond un athro oedd i'w gael - ond weithiau roedd yr athro yn dewis un o'r plant hynaf, mwyaf abl i fod yn "athro ddisgybl" a helpu'r plant ieuengaf gyda'u gwaith.

## EITEMAU



Dyma boster o'r wyddor Gymraeg.
Mae'n siwr eich bod chi'n gwybod bod mwy o lythrennau yn y wyddor Gymraeg na'r wyddor Saesneg. Dydy rhai o lythrennau'r wyddor Saesneg ddim i'w cael yn y wyddor Gymraeg, ac mae gan y Gymraeg rai llythrennau sy'n arbennig iddi hi. Edrychwch ar y poster i weld pa rai.



Roedd plant yn defnyddio abacws i'w helpu i gyfrif. Yn 1910, roedd plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn dysgu sut i ddarllen, ysgrifennu a gwneud mathemateg. Dydy hynny ddim yn swnio'n llawer, efallai, ond roedd yn llawer mwy na beth oedden nhw'n ddysgu cyn hynny. Doedd nifer o oedolion ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu o gwbl. Roedd pob plentyn fod i fynd i'r ysgol, ond roedd llawer yn aros adref i helpu eu rhieni.



© BBC



Pan oedd plant yn dechrau'r ysgol, roedden nhw'n dysgu sut i ysgrifennu ar lechen gyda phensel arbennig ar gyfer llechen. Nes ymlaen, roedden nhw'n cael defnyddio pen ysgrifennu pren gyda nib metel i ysgrifennu mewn inc ar bapur. Roedd rhaid rhoi'r nib yn yr inc ar ôl ysgrifennu cwpwl o eiriau. Roedd pot inc bach ar bob desg. Roedden nhw'n cael eu llenwi o botel fawr gan y monitor inc, oedd wedi'i ddewis gan yr athro.



Stôf fel hon wedi'i gwneud o haearn bwrw oedd yr unig beth oedd yn cynhesu llawer o ysgolion cefn gwlad. Roedd yn rhaid ei glanhau a'i chynnau bob bore, a'i bwydo gyda glo neu bren yn ystod y diwrnod i'w chadw i fynd. Roedd nifer o blant yn cerdded milltiroedd i'r ysgol, felly mewn tywydd garw roedden nhw'n cyrraedd yn oer a gwlyb. Roedd y stôf yn ddefnyddiol wedyn er mwyn sychu dillad, yn ogystal â chadw'r dosbarth yn gynnes.

Ond yn aml, roedd stôf yn achosi problemau. Weithiau roedd mwg yn llenwi'r dosbarth ac roedd yn rhaid anfon y plant allan. Dyma beth gafodd ei ysgrifennu mewn llyfr log ysgol yn 1899, 'Anodd gweithio yn yr ysgol achos y mwg. Anfon y plant adref yn gynnar.'



Mae gwellaif defaid yn y dosbarth achos bod yr athro wedi mynd â nhw oddi ar un o'r plant. Ddiwedd y gaeaf roeddech chi'n gallu torri neu gneifio côt wlân y ddafad ac wedyn gwerthu'r gwlân. Roedd gwellaif yn finiog iawn.

Os oedd dafad yn aflonydd neu'n ceisio dianc byddai'r gwellaif yn ei brifo. I stopio'r gwaedu byddai'r ffermwr yn rhoi tar poeth ar y briw.
Roedd hyn yn gweithio ond yn boenus iawn siwr o fod.



© BBC

# TYSTION



Pan wnes i'r gofrestr bore 'ma, doedd Harry Williams ddim yma. Dydy hynny ddim yn anarferol, mae arnai ofn. Dw i'n gwybod bod ei ewythr yn sâl, a'u bod nhw angen cymaint o help â phosibl ar y fferm.

Ond mae hefyd wedi bod yn cael trafferth gyda'r bechgyn eraill. Dydy e ddim o'r ardal yma, chi'n gwybod? Bachgen o Gaerdydd ydy e. Mae'n newydd - o'r tu allan - ac os dydych chi ddim yn cael eich derbyn yn syth, mae'n anodd iawn ennill parch y bobl leol.

Ond, fel o'n i'n dweud, roedd e'n absennol bore 'ma. Yna, tua hanner awr wedi deg, llenwodd y dosbarth gyda mwg o'r stôf ofnadwy 'na. Roedd yn rhaid i fi anfon pawb allan i wneud eu dril tra mod i'n trio cael gwared â'r mwg. Dw i'n dal wrthi ac mae bron yn amser i'r ysgol orffen.

Beth bynnag, nes ymlaen fe edrychais i allan i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwneud eu hymarferion a dyna lle roedd Harry Williams - yn mynd â phethau o sach a'u rhoi nhw i Edward Roberts. Es i allan yn syth ond pan welodd fi fe redodd Williams i ffwrdd - ar hyd y llwybr tua'r afon. Pan ofynnais i Edward Roberts am y peth dywedodd e fod Williams wedi gofyn iddo brynu pethau ganddo - gan gynnwys y gwellaif 'na! Maen nhw'n finiog iawn - yn beryg a dweud y gwir. Dyna pam mod i'n cadw'r gwellaif yma nes i'r ysgol orffen.

# Y STORI

Cegin: Sylwodd modryb Harry fod rhywun wedi dwyn pethau o'r gegin – ham, ychydig o fenyn a rhai o deganau Harry. Ond sylwodd Mari Jenkins fod y lleidr wedi gadael oriawr werthfawr.


Stabl: Gadawodd Harry nodyn i Tomos yn dweud ei fod wedi mynd â'r gwellaif. Roedd ei wialen bysgota wedi mynd hefyd. Roedd Tomos yn meddwl bod Harry wedi mynd i bysgota – pan oedd fod yn dychryn adar yn y cae.

Stafell ddosbarth: Aeth Harry ddim i'r ysgol y diwrnod hwnnw. Gwelodd Mr Vaughan Harry'n rhoi sach i fwli'r ysgol, ond yna rhedodd Harry i ffwrdd.



© BBC

# IARD YR YSGOL



Os mai dim ond un ysgol leol oedd i'w chael, yna byddai holl blant yr ardal yn mynd i'r ysgol honno. Roedd plant o wahanol gefndiroedd yn cwrdd ar iard yr ysgol ac yn chwarae gyda'i gilydd. Ond, fel nawr, roedden nhw hefyd yn cweryla llawer. Roedd rhai o'r plant yn cael eu bwlio, yn arbennig os oedden nhw'n wahanol – fel Harry Williams. I'r plant hynny, gallai'r iard fod yn le anhapus ac unig iawn.

# EITEMAU



Roedd clychau pres yn y dymbel pren yma. Ddim ar gyfer cerddoriaeth – ond ar gyfer ymarfer corff. Doedd dim ymarfer corff pan oedd Harry Williams yn yr ysgol, roedden nhw'n gwneud dril. Roedd dril fod i wneud plant yn ffit a chryf drwy ddefnyddio pwysau fel dymbel.

Pan oedd y tywydd yn wael, roedden nhw'n gwneud ymarferion dril arbennig wrth eu desgiau. Sut ydyn ni'n gwybod? O lyfrau ar gyfer athrawon sy'n dangos ymarferion dril.



Gêm i blant oedd chwip a thop. Yn gyntaf, roeddech chi'n clymu cordyn y chwip o gwmpas y top. Yna, er mwyn gwneud i'r top droelli, roeddech chi'n tynnu'r chwip i ffwrdd yn gyflym. Doedd chwip a thop ddim yn costio llawer ond roedd yn rhaid i rai plant wneud eu rhai eu hunain. Roedden nhw'n gwthio darn o bren byr drwy dwll rîl yna'n cerfio'r ddau i siâp top gyda chyllell finiog.



© BBC



Edrychwch yn fanwl ar y ddau ddarn o bren yma. Mae'r un byrraf wedi ei gerfio'n ofalus yn bwynt bob ochr. Y darnau pren yma fyddech chi'n eu defnyddio i chwarae Cath a Chi - gêm wedi'i gwneud gartref, ac roedd ychydig bach fel rownderi. Roedd plant y wlad yn dysgu torri pethau gyda chyllell boced - felly, hyd yn oed os nad oedd ganddyn nhw deganau, roedden nhw'n gallu gwneud pethau er mwyn chwarae gyda'u ffrindiau.



Roedd digon o afonydd, nentydd a phyllau yng nghefn gwlad. Dyna pam bod cymaint o blant yn pysgota. Doedd pysgota ddim yn costio llawer o arian. Doedd dim rhaid i chi brynu gwialen bysgota, gallech wneud eich gwialen eich hun.

Yr unig beth oedd ei angen arnoch chi oedd cangen hir, syth, ychydig o gortyn a phin cam ar gyfer y bachyn. Eu rhoi at ei gilydd, a dyna'ch gwialen! Ac roedd digon o fwydod fel abwyd!



Doedd dim llawer o arian gan y rhan fwyaf o deuluoedd. Roedd yr arian oedd ganddyn nhw yn mynd at fwyd, gwres a rhent. Dim ond unwaith neu ddwy'r flwyddyn fyddai plant yn cael teganau - Nadolig a phen-blwydd, os oedden nhw'n lwcus. Byddai'r injan drên yma wedi bod yn arbennig iawn. Byddai plentyn wedi edrych ar ei hôl yn ofalus a ddim wedi ei rhoi i rywun arall, hyd yn oed am arian, heb reswm da.

## TYSTION



Ar y dechrau roeddwn i'n rhy grac i boeni llawer. Rhaid mai Harry oedd wedi mynd â'r pethau 'na. Ond wedyn, fe ddechreuais i feddwl. Pam aeth e â nhw? I'w rhoi i rywun? I'w gwerthu?



© BBC

Yna fe sylweddolais i - mae'n gofyn o hyd pam nad ydy e'n cael mynd yn ôl i fyw at ei dad. Dw i wedi egluro iddo dro ar ôl tro - dyma ei gartref nawr. Ond mae'n dal i ofyn. Efallai ei fod e'n trio cael arian i redeg yn ôl i Gaerdydd? Ond, na, meddyliais i - mae'n rhy bell - mae'n siŵr mai gwneud ryw ddrygioni mae'r bachgen eto.

Felly, fe es i chwilio amdano - o gwmpas y fferm - i lawr ar bwys yr afon lle mae'n pysgota - ac yma yn yr ysgol. Fe glywais i ei fod wedi bod yma. Dywedodd yr Edward Roberts yna ei fod wedi rhoi chwe cheiniog i Harry am y gwellaif, y darnau 'na o deganau, y wialen bysgota ac am injan drên Harry. Na, meddai fi, fyddai Harry byth yn gwerthu'r injan. Ond fe ddywedodd y gweddill ei fod wedi. Doedd e ddim wedi gwerthu'r ham na'r menyn. Duw a ŵyr beth mae wedi gwneud gyda'r rheini.

Beth bynnag, pan ofynnais i ble'r aeth e, fe ddywedon nhw ei fod wedi mynd i Ben-y-bont. Mae Pen-y-bont filltiroedd i ffwrdd - ond eto mae'n rhaid mynd yno gyntaf cyn mynd i Gaerdydd. Y peth mwyaf od ydy ei fod wedi gofyn oedd rhywun yn gwybod ble roedd y doctor yn byw.

## Y STORI

Cegin: Sylwodd modryb Harry fod rhywun wedi dwyn pethau o'r gegin – ham, ychydig o fenyn a rhai o deganau Harry. Ond sylwodd Mari Jenkins fod y lleidr wedi gadael oriawr werthfawr.

Stabl: Gadawodd Harry nodyn i Tomos yn dweud ei fod wedi mynd â'r gwellaif. Roedd ei wialen bysgota wedi mynd hefyd. Roedd Tomos yn meddwl bod Harry wedi mynd i bysgota – pan oedd fod yn dychryn adar yn y cae.

Stafell ddosbarth: Aeth Harry ddim i'r ysgol y diwrnod hwnnw. Gwelodd Mr Vaughan Harry'n rhoi sach i fwli'r ysgol, ond yna rhedodd Harry i ffwrdd.

Iard yr ysgol: Rhoddodd Edward chwe cheiniog i Harry am y gwellaif, y teganau a'r wialen bysgota, ond ddim am y bwyd. Dywedodd y plant fod Harry wedi mynd i Ben-y-bont a'i fod yn gofyn ble roedd y Doctor yn byw.

## BARN YR ARBENIGWR

Allwn ni ddim bod yn hollol siŵr ble aeth Harry'r diwrnod hwnnw ond wrth edrych ar y cliwiau roeddwn i'n gallu dyfalu beth oedd mwyaf tebygol.

A. Mae moddion llysieuol Mari'n dweud wrthon ni fod ewythr William yn sâl iawn ond hefyd bod Megan wedi sylwi fod pethau ar goll o'r fferm.
B. Yn y llythyr, mae Harry'n dweud ei fod wedi mynd â'r gwellaif ac y bydd yn talu Tomos yn ôl cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn awgrymu bod Harry'n bwriadu dod yn ôl i'r fferm ond



© BBC

ei fod angen yr arian ar gyfer rhywbeth.
C. Mae Mr Vaughan yn dweud yn y gofrestr bod Harry wedi rhoi sach o bethau i Edward Roberts gan gynnwys gwellaif.
CH. Mae dyddiadur Megan yn cadarnhau bod Harry wedi gwerthu ei deganau a'r gwellaif ac wedi gofyn ble roedd y Doctor yn byw.

Wnaethoch chi ddewis un o'r cliwiau yma? Ydych chi wedi datrys y dirgelwch? Dewch i ni gael gweld…



© BBC



Mr Vaughan: Pan ddywedodd Mrs Williams ei bod hi'n meddwl bod Harry wedi rhedeg i ffwrdd i Gaerdydd, dywedais i bydden i'n mynd ar ei ôl. Wel, ro'n i'n gwybod y bydden i'n gyflymach. Roeddwn i'n gobeithio ei ddal cyn cyrraedd Pen-y-bont ar Ogwr – ond wnes i ddim. Roedd hi'n dywyll erbyn i fi gyrraedd, ond roedd gen i syniad ble i edrych gyntaf. Roedd un o'r plant wedi dweud bod Harry wedi bod yn gofyn am Ddoctor.



Roedd e'n curo ar y drws pan welais i e ac roedd sach wag wrth ei draed. Darn o ham yn ei freichiau, menyn mewn un llaw a llond dwrn o arian yn y llall. Cafodd Doctor Basterfield ychydig bach o sioc pan agorodd y drws.



Megan Williams:Y syndod cyntaf ges i oedd clywed ceffyl a chert yn dod i'r iard. Ond fe ges i fwy o syndod pan welais i Harry'n rhedeg i mewn gyda Doctor Basterfield.



Dyna pryd sylweddolais i beth oedd Harry wedi bod yn ei wneud. Roedd wedi cymryd y pethau 'na i dalu'r doctor – ac wedi mynd i'w nôl ar ei ben ei hun bach. Ro'n i bron â chrio. A dweud y gwir, fe wnes i – pan oedd popeth drosodd. Roedd Doctor Basterfield yn gwrthod cadw'r ham a'r menyn – na'r ychydig geiniogau oedd gan Harry. Fe ddyweddodd y bydden ni'n cael talu pan oedd William yn ôl ar ei draed.
Ac am Harry – chafodd e ddim yr injan yn ôl gan Edward Roberts. Ond fe ddywedodd ei bod hi'n werth colli'r injan dim ond i gael gweld ei Ewythr yn well.





© BBC